



**CYNGOR TREF
LLANFAIRFECHAN
TOWN COUNCIL**



Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan, Ffordd y Pentref, Llanfairfechan
LL330AB

**COFNODION CYFARFOD LLAWN Y CYNGOR TREF
NOS FERCHER, MAWRTH YR 16^{EG} 2022**

Presennol: Cadeirydd: Dirprwy Faer Gyng Christopher Jones; Cyng Leena Farhat; Cyng Laura Fielding; Cyng Carol Gell; Cyng Andrew Hinchliff; Cyng Claire Hughes; Cyng Nia Jones; Cyng Gareth Wyn Jones; Cyng Elgan Owen; Cyng Christine Roberts

227. Croeso gan Gadeirydd y Cyfarfod

228. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldebau: Maeres Penny Andow; Cyng Alun Rhys Jones, Cyng Delohne Merrell;

Penderfynwyd derbyn a nodi

229. Derbyn datganiadau o ddi-ddordeb – yn unol â Chod Ymddygiad Llywodraeth Leol

Cyng A Hinchliff Eitem 7 Cadeirydd Pwyllgor Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan

Cyng C Jones Eitem 7 Trysorydd Pwyllgor Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan

Cyng C Roberts Eitem 7 Aelod Pwyllgor Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan

Cyng A Hinchliff Eitem 16 ar Bwyllgor Cynllunio CBSC ond fe gadarnhaodd bod modd iddo aros yn y cyfarfod os nad ydyw'n gwneud sylw am ei fwriad o ran pleidleisio

Penderfynwyd derbyn a nodi

230. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd.

Roedd preswlydd yn bresennol i ofyn cwestiynau am y broblem tipio anghyfreithlon ym Maes Parcio Ffordd yr Orsaf Cae Briggs. O ganlyniad fe benderfynwyd trafod Eitem Agenda 11 yn gynt.

Bu i breswlydd grybwyll problem barhaus a sylweddol gyda thipio anghyfreithlon yn y maes parcio ger y blychau ailgylchu a biniau'r preswylwyr. Mae cannoedd o adroddiadau wedi'u hanfon at GBSC. Mae'n amlwg bod CBSC yn gwneud eu gorau glas i glirio'r ardal ond dydyn nhw heb ganfod ateb i'r broblem hyd yn hyn. Soniodd y Cyngwr y bu hyn yn broblem ers blynnyddoedd maith ac maen nhw wedi ceisio mynd i'r afael â'r broblem mewn sawl ffordd ond mae'n debyg mai'r unig ateb fyddai gosod system CCTV yn yr ardal. Soniodd y Clerc bod grŵp gwaith newydd wedi'i ffurfio i fynd i'r afael â'r broblem a bod aelodau o'r Cyngor Tref yn cynrychioli yn y grŵp. Y cynnig ydy gosod camera symudol a byddai'r Cyngor Tref a tair adran arall CBSC yn gyfrifol am ei ariannu. Byddai'r gost i'r Cyngor Tref yn gost gosod untro o £895.00 a £150 y flwyddyn. Byddai hyn yn fodd i GBSC ymchwilio natur y broblem a gallai gynnig tystiolaeth i gefnogi achos llys i erlyn. Soniwyd am bryder y gallai gosod CCTV yn y maes parcio symud y broblem. Bu hyn yn wir yn sgil y tipio anghyfreithlon ar Ffordd Aber yn ystod yr wythnos y cafodd y maes parcio ei gau gan GBSC ar gyfer y Gwaith Cob. Soniwyd y gallai hyn fod yn risg ond mae'n bwysig mynd i'r afael â phroblemau'n olynol. At hyn, gellir symud camera symudol i ardaloedd lle mae problemau fel sy'n briodol. Cafodd ei gytuno'n gyffredinol y gallai hyn helpu gyda'r broblem ond mae angen ei osod fel rhan o brosiect ehangach i ddiweddarau arwyddion a thacluso arwyddbyst sydd wedi torri. Roedd y preswlydd yn teimlo'n gryf bod lleoliad y biniau'n broblem a byddai'n well gosod y biniau ger y mynedfeydd lle mae modd eu gweld nhw'n amlwg. Soniwyd nad oes modd symud y biniau o'r maes parcio gan nad oes modd eu gosod ar y briffordd. Fodd bynnag, fe soniwyd y bydd y cyngor yn dwyn i ystyriaeth yr holl fannau yn y maes parcio i osod y biniau a byddai'r Clerc yn adrodd yr holl awgrymiadau yn ôl i'r grŵp gwaith. Soniwyd am bryder nad oes modd i breswylwyr Ffordd yr Orsaf ailgylchu eu gwastraff bwyd a'u cardbord ac fe gaiff y mater hwn ei adrodd yn ôl i GBSC er mwyn iddyn nhw ei ddwyn i ystyriaeth. Clerc i hysbysu'r preswlydd am unrhyw ddatblygiadau.

Penderfynwyd derbyn a nodi

231. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Chwefror y 23^{ain}

Dosbarthwyd y cofnodion cyn y cyfarfod ac maen nhw wedi'u nodi wedi'u darllen.

215 dylai ddarllen – Fodd bynnag, dydy hyn ddim yn golygu caiff llai o waith ei gyflawni.

232. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer digwyddiadau cymunedol

1. Gasebos – defnydd o gyfarpar gan edrych tua'r dyfodol

Bu trafodaeth am ddefnydd y gasebos gan edrych tua'r dyfodol. Roedd aelodau o'r farn bod y gasebos wedi'u prynu drwy brosiect i gefnogi busnesau lleol felly fe ddylid eu cynnig unwaith eto i unrhyw fusnesau fyddai'n elwa ohonyn nhw er bod y risg ynghlwm â covid wedi lleihau. Bydd y Clerc a'r pwyllgor Cyfryngau'n cydweithio i lunio hysbyseb cyfryngau cymdeithasol i hysbysebu hyn. Clerc i ychwanegu at waith papur y cytundeb bod hawl i'r Cyngor Tref ofyn am gael defnyddio'r gasebo ar gyfer digwyddiadau cymunedol pan fo'i angen.

2. Y Pasg a'r Digwyddiad Ffeirio Teganau – dyddiadau i'w rhannu

Dydd Mawrth, Ebrill y 12fed 10 – 12yp ar gyfer y prosiectau Ffenest Y Pasg a ffeirio teganau

Dydd Sul, Ebrill y 24ain seremoni wobrwyo y Faeres Penny Aindow, Llanfairfechan yn Diolch Ichi, yn Siambr y Cyngor

3. Picnic y Tedis yn y parc – dydd Sul, Mehefin y 5^{ed}

Mae paratodau ar waith ac mae hysbyseb cyfryngau cymdeithasol wedi'i anfon. Rydym wedi trefnu person i beintio wynebau ac wedi holi Sefydliad y Merched i gynnal stondin gacennau. Mae staff wrthi'n cysylltu gyda fan goffi neu hufen iâ yn ogystal â band pres ar gyfer y digwyddiad. Soniwyd, ar gais y preswylwyr, bydd hwn yn ddigwyddiad cymunedol cost isel er mwyn dathlu gŵyl y banc.
Penderfynwyd derbyn a nodi

233. Derbyn ceisiadau a chymeradwyo cais grant cymunedol s 137

Cafodd hwn ei ohirio at y cyfarfod nesaf Penderfynwyd derbyn a nodi

234. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo gosod arwydd digidol yn lle'r hen un yn ffenest Neuadd Gymunedol y Dref. Derbyniwyd dyfynbrisiau ar gyfer sgrin ffenest arfaethedig yn Neuadd Gymunedol y Dref am dros £9000 ac fe gytunwyd bod hyn yn ddrud. Clerc i gasglu mwy o wybodaeth gydag ystod o wahanol opsiynau. Cytunwyd y dylid symud y mater i ddyddiad ar ôl yr etholiad er mwyn i'r Cyngor Tref newydd benderfynu ar y camau nesaf.

Penderfynwyd derbyn a nodi

235. Derbyn gwybodaeth gan y Pwyllgor Staffio a chymeradwyo prosesau staff Ebrill 2022

Cafodd y mater hwn ei ddwyn i ystyriaeth yn fanwl fel sy'n briodol. Bu i'r Clerc ofyn am gyngor gan ymgynghorwr AD, Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ac Un Llais Cymru. Cafodd broses ganlynol ei chytuno mewn Pwyllgor Staffio ar Fawrth y 1^{af} 2022:

- Does dim angen cynnal proses recriwtio llawn gan fod dau rownd recriwtio wedi bod eisoes drwy'r broses
- Dylid cynnig y cytundeb parhaol newydd ynghyd â threfnu sesiwn arwyddo cytundebau gyda'r pwyllgor staffio cyn cychwyn Ebrill 2022

Mae llwyddiant y rôl yn amlwg o ganlyniad y Marchnadoedd Bwyd a Chrefftau a hynny er gwaethaf yr heriau ynghlwm â'r pandemig. Soniodd y Clerc bod Llanfairfechan ymysg y trefi sydd wedi'u dewis i dderbyn cefnogaeth gan brosiect ymgynghori CBSC er mwyn datblygu map llwybr Cynllun Lleoedd Cymunedol erbyn Gorffennaf 2022. Bu'r gwaith sydd wedi'i gyflawni ar y prosiect Byw'n Dda yn help i ddatblygu ein gwaith cynllunio cymunedol ynghyd â'n hyrwyddo'n enw da gyda ChBSC ac mae hyn yn rhannol yn sgil gwaith proffesiynol y rôl swyddog prosiect.

Cynigwyd gan y Cyng G Wyn Jones Eiliwyd gan y Cyng L Farhat Yn unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

236. Derbyn gwybodaeth a thrafod Problem Parcio Maes Chwarae Nant y Berllan – Mynedfa Ffordd Dyffryn / Valley Road

Fe gynhaliwyd cyfarfod safle ac mae CBSC wrthi'n dylunio ffordd o ailddatblygu'r safle er mwyn lleihau'r risg yn sgil parcio yn yr ardal hon. Cafodd bolardiau eu hawgrymu ond byddai hyn yn golygu na fyddai modd i gerddwyr ddefnyddio'r llwybr cerdded. Awgrymwyd y gallai arwyddion Plant yn Chwarae fod yn ddefnyddiol a byddai hyn yn ddefnyddiol ym mhob un o gaeau chwarae Llanfairfechan. Y Clerc i e-bostio CBSC gyda'r awgrym hwn. Mae pryder bod modd adnabod anghenion cystadleuol – mae manau parcio ceir yn brin iawn ac mae risg sy'n peri

pryder ar hyn o bryd. Caiff y Cyngor Tref eu hysbysu fel sy'n briodol ac fe gân nhw gipolwg o'r cynlluniau dylunio unwaith y byddan nhw wedi'u cyflwyno. Penderfynwyd derbyn a nodi

237. Derbyn Amserlen Flynyddol o Gyfarfodydd y Cyngor Tref 2022/23

Derbyniwyd yr amserlen dros e-bost. Mae angen addasu un dyddiad – mae angen cael gwared ar Dachwedd y 30^{ain} 2023.

Penderfynwyd derbyn a nodi

238. Derbyn cais grant Partneriaeth Carneddau ar gyfer Glan y Môr Elias a chymeradwyo'r broses

Mae'r cais grant wedi'i gyflwyno. Yn dilyn pryderon am ddifrod i lechi, soniwyd mai'r cynllun ydy trefnu arwydd metel sinc wedi'i engrafu. Mae'r cynlluniau ar droed erbyn hyn ac fe gaiff y syniadau dylunio eu hystyried ymhellach os caiff y cais am grant ei dderbyn. Penderfynwyd derbyn a nodi

239. Derbyn a chymeradwyo adroddiad ariannol Mawrth ynghyd â datganiad arian parod diwedd y flwyddyn

Caiff hwn ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf Penderfynwyd derbyn a nodi

240. Derbyn a chymeradwyo taliadau cyfredol ar gyfer Mawrth 2022

1. Sgipiau CBSC (ôl-daliad) £552.00

2. Vesa Mount (ôl-daliad)– ymweliad safle ar gyfer arwydd wedi'i ddifrodi £1170.00

3. Cyflogau a phensiynau - Cyflogau'r Staff a thaliadau pensiwn y Cyflogwr a'r Gweithwyr £4577.28 (Yn cynnwys cyllid Byw'n Dda)

4. Taliadau Chwefror a Mawrth Menter Iaith (ôl-daliad) £213.62 a £302.11

5. Ad-daliad Trwydded TENS Kirsty Merrell Daily £21.00

6. Ad-daliad stribedi LED o Amazon Clerc y Dref £44.97

7. Llechi a chroen atal lleithder (membrane) Huws Gray oddeutu. £100.00 (cyfanswm terfynol i'w ychwanegu)

8. Hyfforddiant Un Llais Cymru Penny Andow – Cod Ymddygiad ac Ymgysylltu gyda'r Gymuned £60.00

Cynigwyd gan y Cyng A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng N Jones Yn unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

241. Trafod materion cynllunio

0/49447 Bryn Awelon Ffordd Penmaenmawr Llanfairfechan LL33 OPN - amlinell caniatâd cynllunio. Ni chodwyd unrhyw arsylwadau. Penderfynwyd derbyn a nodi

242. Derbyn gohebiaeth

Gohebiaeth wedi'i anfon ymlaen

Penderfynwyd derbyn a nodi

243. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd:

1 Neuadd Pendalar – Adroddiad gan y Cyng Claire Hughes. Fe gynhaliwyd dau gyfarfod effeithiol rhwng 10 a 12 ac mae'r preswylwyr yn awyddus i fod yn rhan o bwyllgor i ddatblygu'r neuadd fel canolfan cymunedol. Roedd llawer o ddiddordeb, ac mae'n bwysig caiff hyn ei ddatblygu fel menter o dan arweiniad y gymuned. Y camau nesaf ydy ymweld â'r safle i asesu beth sydd angen ei dynnu ac oes angen cwblhau unrhyw waith cynnal a chadw. Yna bydd y grŵp yn mynd ati i drefnu Cyfarfod Blynnyddol er mwyn ffurfio grŵp llywodraethu priodol. Byddwn yn cysylltu gyda ChGGC i ofyn am gyngor ynghylch yr opsiynau a'r prosesau hyn.

2 Gwylio Cyflymder Llanfairfechan – Adroddiad gan y Cynghr Nia Jones a Leena Farhat. Mae yna 4 gwirfoddolwr sy'n ddigon i fwrw iddi gyda'r prosiect ond bydd angen recriwtio mwy o wirfoddolwyr wrth i'r prosiect ddatblygu. I gychwyn, bydd modd llogi cyfarpar gan Heddlu Gogledd Cymru ond fe fydd yn rhaid i'r Cyngor Tref brynu cyfarpar ar gyfer y dyfodol yn y pendraw. Mae'n rhaid i wirfoddolwr gwblhau ffurflen gaiff ei atgyfeirio at yr heddlu i'w gwirio. Mae'n rhaid i wirfoddolwyr fynychu hyfforddiant a bydd y Cyng. Cllr Nia Jones a'r Clerc yn trafod er mwyn trefnu hyn gyda Go Wales. Awgrymwyd y byddai'r cyfyngderau 20mya yn effeithiol, fodd bynnag, mae'n debyg fod y cynllun ar ei gyfnod prawf ac mae adolygiadau cychwynnol cymysg ynghylch y canlyniad. Mae mwy o wybodaeth ar gael gan y swyddog Go Wales – bydd y clerch yn rhannu dolen e-bost.

3 Cyfarfod safle gardd gymunedol Un Llais Cymru – soniodd y Clerc y bu cyfarfod safle gyda Swyddog Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Un Llais Cymru. Mae cyfle sylweddol ynghlwm â ffrwd cyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur gan Lywodraeth Cymru. Fe awgrymwyd y canlynol yn sgil ymweliadau safle o amgylch y dref:

Gardd yr ysgol – buasai modd ennill cyllid sylweddol er mwyn ailwampio'r ardd i greu gofod tyfu cymunedol.

Gerddi Fictoria – bu i'r swyddog gymeradwyo'r gwaith sydd wedi'i gyflawni eisoes ac fe gynigiodd gyngor ar gyfer y prosiect gwrychoedd bwytadwy a oedd eisoes wedi ennill cyllid gan y mudiad Bwyd Bendigedig. Soniwyd bod ei phrosiect hi ond yn cefnogi plannu rhywogaethau brodorol.

Llain y Bont Rheilffordd ar Ffordd yr Orsaf – gellir ariannu hyn yn defnyddio cronfa gardd gymunedol Cadwch Gymru'n Daclus. Bydd angen derbyn caniatâd yn gyntaf yna gallwn fynd ati i gyflwyno cais.

4 Cynghorydd Sir yn cwrdd gyda grŵp cyswllt yr A55 – Adroddiad gan y Cyng Andrew Hinchliff.

Bu eglurhad ynghylch y penderfyniad diweddar i ohirio'r prosiect cyffordd – y gwir amdani ydy bod cost carbon uniongyrchol y gwaith concriid arfaethedig yn rhy uchel ac nid oes modd ei adennill ymhen amserlen briodol. Nod cyffredinol Llywodraeth Cymru ydy lleihau'r defnydd o geir a bydd gwaith yn y dyfodol yn canolbwyntio ar gynnig cludiant cyhoeddus gwell a lleihau ôl troed carbon. Mae sawl ymholiad wedi dod i law yn sgil canslo'r cynllun:

- Mae pryderon ynghylch gwaith cynnal a chadw sydd heb ei gyflawni yn sgil oedi gyda'r cynllun arfaethedig
- Mae dal angen wynebau lleihau sŵn yn yr ardaloedd sydd wedi'u trafod yn flaenorol
- Trafodaeth ynghylch lleihau cyflymder i 50mya a 30mya ger y cylchfannau er mwyn lleihau ôl troed carbon a sicrhau eu bod yn fwy diogel ac yn fwy rhwydd i'w defnyddio
- Newid posibl i'r llinellau yn Nhwnnel Penmaen – mae'r terfyn cyflymder 30mya yn peri trafferth ac mae'n bosibl y byddai terfyn cyflymder o 40mya gyda llinellau toredig yn fwy ffafriol na'r sefyllfa bresennol nad oes modd ei gorfodi ar hyn o bryd
- Mae safle bws Pen Dalar yn dal yn un dros dro. Mae angen meddwl am ddatrysiad parhaol a mynd ati i adeiladu lloches. Soniwyd y byddai unrhyw gynlluniau i wneud pob ardal anheddiad yn 20mya yn rhwystro cynnydd bysiau ac yn arwain at amseroedd teithio hirach.
- Mae'n bosibl y byddwn yn dal yn ystyried y llwybr teithio llesol ar hyd Ffordd Penmaenmawr

Bu i Gynghorwyr Sir o Lanfairfechan a Phenmaenmawr sôn am y 5 mlynedd o ansicrwydd a cholled unrhyw fuddion cymunedol gan na chaiff y cynllun ei roi ar waith. Roedd cais am rywfaint o iawndal er budd y gymuned a byddwn yn bwrw golwg ar hyn. Penderfynwyd derbyn a nodi

244. Derbyn sylwadau a chanmoliaethau brys

1. Cais am sgipiau yn ystod y penwythnos. Mae'r wybodaeth wedi'i rhannu eisoes – dydy CBSC ddim yn cynnal sgipiau cymunedol yn ystod y penwythnos. Daeth y polisi i rym yn ystod y pandemig ac mae awgrym y byddai hyn yn parhau gan edrych tua'r dyfodol.
2. Bu cwestiynau ynghylch defnydd Yr Heath ar Ffordd Penmaenmawr, ar gyfer ffoaduriaid o'r Wcráin yn benodol. Soniwyd na fu'r adeilad erioed yn addas er dibenion domestig ac felly mae'n debyg na fyddai hyn yn bosibl. Bu i Gynghorydd Sir gynnig y diweddaraf am y sefyllfa. Mae unrhyw waith newid defnydd wedi'i ohirio yn sgil y gwaith ar gyffordd yr A55 – bu i Lywodraeth Cymru ofyn fwasai modd defnyddio'r man ar gyfer cerbydau gwaith a lletyau. Gan fod y prosiect hwn wedi'i ohirio am y tro, mae'r eiddo wedi'i ddychwelyd i adran Ystadau CBSC i'w ddwyn i ystyriaeth. Mae wedi'i gynnig i amryw adrannau CBSC ond mae pob un wedi gwrthwynebu. Mae wedi'i gynnig i ddarparwyr tai cymdeithasol ac maen nhw'n ei ddwyn i ystyriaeth ond dydyn nhw heb gytuno hyd yn hyn. Soniodd y Clerc bod cais wedi'i anfon at GBSC inni ddefnyddio'r maes parcio ar gyfer y diwrnod sgip cymunedol yn y tymor byr gan y bu i'r preswylwyr sôn fod y broses yn llawer gwell yno o gymharu â Ffordd yr Orsaf.
3. Ymholiad ynghylch dŵr yn gollwng ar Ffordd y Pentref. Bu hyn yn broblem barhaus a bu cynghorydd y ward wrthi'n ceisio sicrhau caiff y gwaith ei gyflawni'n brydlon. Mae Dŵr Cymru wedi cyflwyno rhybudd i berchennog yr adeilad ac mae'n rhaid iddyn nhw fwrw iddi gyda'r gwaith cyn gynted â phosibl. Y prif bryder ydy diogelwch y cyhoedd ar y llwybr cerdded – mae'n bosibl y byddai perygl o lithro ac mae colled dŵr, sy'n annerbyniol o safbwynt amgylcheddol.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:01yh. Cofnodion wedi'u paratoi gan Glerc y Dref: Jayne Neal

Cyfarfod nesaf: Cyfarfod y Cyngor Tref am 7yh ar ddydd Mercher, Mawrth y 30ain 2022

Mae cyfarfod Hybrid wedi'i drefnu a gallai'r Aelodau Etholedig fynychu Siambr y Cyngor neu ymuno dros ZOOM